
AWDURDOD CYMWYSTERAU, CWRICWLWM AC ASESU CYMRU

QUALIFICATIONS, CURRICULUM & ASSESSMENT AUTHORITY FOR WALES

accac







# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2001-2002

## Hyrwyddo Addysg a Hyfforddiant: Hybu Ansawdd a Chydlyniad



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

# Cynnwys


**Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002**

Rôl yr Awdurdod 1

Cyflwyniad 2

Aelodau'r Awdurdod 4

Cofrestr o fuddiannau'r aelodau 4

Gweinyddiaeth yr Awdurdod 5

Dyraniad gwariant yr Awdurdod 6

Nodau'r Awdurdod 7

Cyflawniadau'r Awdurdod 2001/2002 8

**Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002**

Rhagair i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 29

Datganiad o gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr 32

Datganiad o'r system reoli fewnol 33

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34

Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 35

Mantolen ar 31 Mawrth 2002 36

Datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 37

Nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 38



© Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) 2002



Cyf ACCAC: AC/CM/0319

ISBN 1 86112 473 2



Gellir copïo detholion o'r ddogfen hon ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na wneir copiau ond yn y sefydliad addysgol lle'u defnyddir nhw. Ni cheir gwerthu, llogi na benthyca'r copïau hyn i unrhyw unigolyn, corff na sefydliad arall. Mae pob hawl arall yn aros gyda'r cyhoeddwr.



Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru,
Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX

Ffôn: (029) 2037 5400   Ffacs: (029) 2034 3612
Ebost: info@accac.org.uk   www.accac.org.uk

AWDURDOD CYMWYSTERAU, CWRICWLWM AC ASESU CYMRU
QUALIFICATIONS, CURRICULUM & ASSESSMENT AUTHORITY FOR WALES
accac

Adeiladau'r Castell
Stryd Womanby
Caerdydd CF10 1SX
**Ffôn. 029 2037 5400**
**Ffacs. 029 2034 3612**
**e-bost info@accac.org.uk**

Castle Buildings
Womanby Street
Cardiff CF10 1SX
**Tel. 029 2037 5400**
**Fax. 029 2034 3612**
**e-mail info@accac.org.uk**

Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tŷ Crycwel
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Ein Cyf: 01-11-008

Eich Cyf:

Awst 2002

Annwyl Brif Weinidog Cymru

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno i chi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002.

Mae'r Adroddiad yn adolygu gweithgareddau a chyflawniadau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002 yn ogystal â'i stiwardiaeth ariannol.

Yn gywir

Brian Connolly


Brian Connolly
Cadeirydd

Cadeirydd/Chairman:
**Brian Connolly** OBE
Prif Weithredwr/Chief Executive:
**John V Williams**

# Geirfa

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| ABCh | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| ACCAC | Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru |
| AGG | Addysg Gysylltiedig â Gwaith |
| CA | Cyfnod Allweddol |
| CBAC | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |
| CCEA | Council for Curriculum, Examinations and Assessment |
| CYSAGau | Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol |
| ELWa | Y Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| DAD | Deunyddiau Asesu Dewisol |
| GNVQ | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol |
| NVQ | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol |
| QCA | Qualifications and Curriculum Authority |
| SQA | Scottish Qualifications Authority |
| TAA | Tystysgrif Addysg Alwedigaethol |
| TAG | Tystysgrif Addysg Gyffredinol |
| TCA | Tystysgrif Cyrhaeddiad mewn Addysg |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| UG | Uwch Gyfrannol |
| UWIC | Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd |




Mae ACCAC yn gyfrifol am y canlynol yng Nghymru:

- **Cynghori ar ddatblygiadau polisi a sicrhau ansawdd a safonau mewn cymwysterau allanol cyffredinol a galwedigaethol.**
- **Adolygu pob agwedd ar y cwricwlwm ysgolion a threfniadau asesu statudol mewn ysgolion a gynhelir.**
- **Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth er mwyn cefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y Cwricwlwm sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.**
- **Cynghori ar raglenni ymchwil a datblygu priodol (a'u gweithredu os gofynnir am hyn).**
- **Cyhoeddi a dosbarthu gwybodaeth yn ymwneud â chymwysterau, cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.**

Rhoddir crynodeb o gefndir statudol yr Awdurdod yn y 'Rhagair i'r cyfrifon'.

# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad hwn yn adolygu gweithgareddau a chyflawniadau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002 yn ogystal â'i stiwardiaeth ariannol.

## Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) wedi llwyddo i gyflawni'r mwyafrif helaeth o'i dargedau ar gyfer 2001/2002. Y prif reswm am hyn fu lefel uchel ymroddiad ac ymrwymiad ei staff mewn blwyddyn pan oedd y gyllideb yn dynn a phan gafodd sialensau ychwanegol anodd eu cwrdd hefyd. Mae'r cyflawniadau ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys:

- Cydweithio yn agos â'r Qualifications and Curriculum Authority (QCA) a'r Council for Curriculum, Examinations and Assessment (CCEA) wrth ddatblygu cyngor i Weinidogion ar Gwricwlwm 2000 ôl-16, a gafodd ei dderbyn.
- Gweithio i achredu'r cynllun peilot ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig a gychwynnodd ym mis Mawrth 2002, yn dilyn derbyn cyflwyniad Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC).
- Roedd y profion Sgiliau Allweddol ar gael yn Gymraeg ym mis Mai 2001 a mis Ionawr 2002.
- Cwblhawyd gwaith monitro ar Safon Uwch, Sgiliau Allweddol a dau NVQ.
- Llunio adroddiadau archwilio llawn ar 6 phwnc, adroddiadau monitro cod ar 10 pwnc arall, ac adroddiadau dilynol ar 7 pwnc, i CBAC.
- Cyhoeddi profion Cyfnod Allweddol 2 a 3 ar gyfer 2001 yn brydlon ac i safon uchel.
- Defnyddio deunyddiau prawf ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 fel deunyddiau asesu dewisol o ganlyniad i gyhoeddiad y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes na fyddai profion yng Nghyfnod Allweddol 1 yn statudol yn 2002.
- Lansio *Cyfleoedd Cyfartal ac Amrywiaeth yn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru* yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2001 gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.
- Lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y *Fframwaith Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd* yn swyddogol ym mis Chwefror 2002.
- Mae ACCAC yn cyfrannu'n frwd at nifer o fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys gwaith ar ddatblygu cynaliadwy, cynhwysedd cymdeithasol a chyfle cyfartal.
- Cyhoeddi 183 o deitlau ystafell ddosbarth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Derbyniodd Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Caerdydd Wobr Genedlaethol yng ngwobrwyon Mynegai Gwella Ysgolion ACCAC/Banc HSBC ar gyfer 2001.
- Trefnu 15 o gynadleddau llwyddiannus o amgylch Cymru i ddosbarthu'r Deunyddiau Asesu Dewisol.

Mae'r manylion am gyflawniadau'r Awdurdod i'w gweld dan bob un o nodau'r Awdurdod.





# Aelodau'r Awdurdod




**Mr Brian Connolly** OBE
Cadeirydd

Dyma aelodau'r Awdurdod a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ariannol 2001/2002:

**Mr Brian Connolly** OBE,Cadeirydd
Llywodraethwr yng Ngholeg Gwent,
Cadeirydd Tasglu Sgiliau Cymru

**Mr Owen Rees** CB, Dirpwy Gadeirydd
Cyn Is-Ysgrifennydd yn y Swyddfa Gymreig

**Mr Alan Boxford** OBE
Pennaeth, Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd

**Mrs Eileen Davies**,
Pennaeth Gwyddoniaeth, Coleg y Drindod,
Caerfyrddin, Cadeirydd Cyngor Addysgu
Amgylcheddol Cymru

**Mrs Sandra Davies** OBE
Pennaeth, Ysgol Gyfun Ogwr

**Mr Roger Evans**
Cyn Gyfarwyddwr Personél ASW Holdings plc

**Mr Emlyn R Jones** OBE
Pennaeth, Coleg Iâl, Wrecsam

**Mr Christopher Kipling**
Rheolwr Cefnogaeth Cynhyrchu,
Sony Manufacturing Co. UK, Pen-y-bont ar Ogwr

**Mr Stuart Mathias**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgu, Coleg Sir Gâr,
Sir Gaerfyrddin

**Mrs Susan Parsons** OBE
Pennaeth, Ysgol Gynradd Llanidloes, Powys

**Dr Pauline Peregrine**
Ysgol Busnes, Prifysgol Morgannwg

**Dr Bryn Roberts**
Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Sir y Fflint Cyf,
Cadeirydd Menter Cymru Cyf

**Mrs Claire Argyle**
Pennaeth yr Adran Saesneg, Ysgol Dyffryn Taf, Hendy-gwyn
ar Daf – ymddeolodd 30 Medi 2001

**Mrs Elizabeth M Williams**
Cyfarwyddwraig Addysg Gynorthwyol, Cyngor Bwrdeistref
Sirol Blaenau Gwent – ymddeolodd 30 Medi 2001

**Mrs Katija Dew**
Arbenigwraig Hyfforddi a Gweithwraig Gymdeithasol,
Canolfan Gydweithredol Cymru – penodwyd 1 Hydref 2001

**Mrs Jennifer Evans**
Cydlynydd, Consortiwm Cymunedol Addysg a Hyfforddiant
Torfaen – penodwyd 1 Hydref 2001

**Mr Robert Fowler**
Pennaeth Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Cwricwlwm, Coleg
Castell-nedd Port Talbot – penodwyd 1 Hydref 2001

## Cofrestr o fuddiannau'r aelodau

Mae cofrestr o fuddiannau'r aelodau ar gael i'w darllen yn ystod oriau gwaith arferol yn swyddfeydd yr Awdurdod.

# Gweinyddiaeth yr Awdurdod

**Y strwythur pwyllgorau**

Ymdrinnir â phob mater polisi strategol gan yr Awdurdod llawn, sydd fel rheol yn cwrdd bob tri mis. Ymgymerir â gwaith manwl yr Awdurdod gan ei amrywiol Bwyllgorau, fel a ganlyn:

Y Pwyllgor Archwilio
Archwilio mewnol ac allanol, materion gwerth am arian

Y Pwyllgor Comisiynu
Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog

Y Pwyllgor Gwaith
Gweinyddu, staffio, marchnata, cynllunio corfforaethol a gweithredol

Y Pwyllgor Cymwysterau
Cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol allanol

**Staff**

Mae'r Prif Weithredwr, John Valentine Williams yn cael ei gefnogi gan bedwar Prif Weithredydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y canlynol:

Cymwysterau a Chwricwlwm 14–19
**Linda Badham**

Cymwysterau Galwedigaethol a Dysgu Gydol Oes
**Ann Evans**

Cwricwlwm ac Asesu 5–14
**David Watcyn Jones**

Gwasanaethau Canolog a Chomisiynu
**Huw Davies**

Mae gweddill y staff yn cynnwys swyddogion ac ymgynghorwyr pwnc sydd â chyfrifoldebau am y cwricwlwm, cymwysterau, asesu a chomisiynu; ynghyd â staff cynorthwyol.

**Polisi Iaith Gymraeg**


Polisi'r Awdurdod yw trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ymwneud â'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod yn 'gorff cyhoeddus' at ddibenion Deddf yr Iaith Gymraeg ac mae wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2002.

**Safonau gwasanaeth**

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi *Datganiad o Safonau Gwasanaeth* sy'n nodi'r hyn y gall pawb sy'n delio â'r Awdurdod ei ddisgwyl.

# Dyraniad gwariant yr Awdurdod





Mae'r rhan fwyaf o wariant yr Awdurdod yn ymwneud â gweithgareddau'r rhaglenni, fel y dangosir isod:

| | £'000 | |
|---|---|---|
| **Gwariant ar y rhaglenni** | **7,661** | (71%) |
| **Costau staff** | **2,523** | (23%) |
| **Costau gweinyddol eraill** | **648** | (6%) |


Dangosir dyraniad y gwariant hwn yn Ffigur 1 gyferbyn, a chynhwysir gwariant y flwyddyn 2000/2001 er mwyn cymharu.

Dyma'r gwariant ar raglenni yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn:

| | £'000 | |
|---|---|---|
| **Nod 1 – Y Fframwaith Cymwysterau** | **1,309** | (17%) |
| **Nod 2 – Y Cwricwlwm ysgol a'r asesiad ohono** | **4,940** | (64%) |
| **Nod 3 – Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth** | **1,198** | (16%) |
| **Nod 4 – Ymchwil, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd** | **214** | (3%) |

Rhoddir crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn yn y 'Rhagair i'r cyfrifon'.

**Ffigur 1**



## Diben yr Awdurdod yw hyrwyddo addysg a hyfforddiant yng Nghymru gyda'r nod o hybu ansawdd a chydlyniad er mwyn cyflawni'r diben hwn. Mae gan yr Awdurdod bum nod allweddol:

**NOD 1** Datblygu Fframwaith Cymwysterau cydlynol sy'n cwrdd ag anghenion Cymru ac sy'n gwella lefelau sgiliau a chyrhaeddiad addysgol.

**NOD 2** Datblygu cwricwlwm cydlynol ac integredig ar gyfer disgyblion 5-19 oed, gyda threfniadau asesu yn 5, 7, 11 a 14 sy'n codi safonau cyrhaeddiad ac yn ymestyn cyfleoedd addysgol.

**NOD 3** Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o safon uchel i gefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig.

**NOD 4** Gwella sylfaen gwybodaeth yr Awdurdod gyda gwaith ymchwil wedi'i dargedu a darparu gwybodaeth amserol ynghylch datblygiadau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.


**NOD 5** Sicrhau sefydliad sy'n gynyddol effeithiol ac effeithlon.

NOD 1

# Datblygu Fframwaith Cymwysterau cydlynol sy'n cwrdd ag anghenion Cymru ac sy'n gwella lefelau sgiliau a chyrhaeddiad addysgol.


**Targed allweddol:**
Parhau i ddatblygu'r fframwaith o gymwysterau a achredwyd yn genedlaethol a gwneud newidiadau sy'n codi o bolisi'r llywodraeth.

- Anfonwyd yr Adroddiad Rhesymoli Cymwysterau at y Gweinidog ym mis Ionawr 2002. Mae'r Grŵp Gweithredu Rhesymoli ar y Cyd dros Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn goruchwylio'r adroddiad, ac mae gan ACCAC dri chynrychiolydd ar y Grŵp hwn. Pwrpas y Grŵp yw llywio gwaith yr awdurdodau rheoleiddio ar resymoli cymwysterau, edrych ar anghenion sectorau a'r gorgyffwrdd rhwng cymwysterau.
- Derbyniodd y Gweinidog gyngor ACCAC ar ddiwygiadau Cwricwlwm 2000. Mewn cydweithrediad â chyrff dyfarnu ac awdurdodau rheoleiddio eraill, mae'r gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r argymhellion ar Safon Uwch/UG, TAA a Sgiliau Allweddol.
- Roedd profion Sgiliau Allweddol cyfrwng Cymraeg ar gael ym mis Mai 2001 a mis Ionawr 2002.
- Derbyniwyd y cyflwyniad cyntaf ar gyfer achredu'r cynllun peilot ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig gan CBAC ym mis Mawrth 2002.
- Achredwyd Diploma'r Fagloriaeth Genedlaethol a chytunwyd ar y rhaglen fonitro ar ôl achredu ym mis Medi 2001.
- Achredwyd cyflwyniadau ar gyfer cymwysterau sy'n gysylltiedig â galwedigaethau yn y Sector Rheoli, y Sector Rheoli Lefel Uwch, Gofal Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Lefel Uwch ac maent bellach yn rhan o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
- Ar ôl ymgynghori ar feini prawf TGAU Cymraeg, Cymraeg Ail Iaith a Saesneg, hysbyswyd y cyrff dyfarnu o benderfyniad y Gweinidog i beidio â rhannu TGAU Cymraeg a Saesneg yn gymwysterau iaith a llenyddiaeth ar wahân. Yn hytrach diwygiwyd meysydd llafur presennol yn unol â meini prawf pynciau 1995. Achredwyd manylebau TGAU Saesneg. Cytunwyd ar amserlen ddiwygiedig gyda CBAC ar gyfer achredu TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.
- Mewn cydweithrediad â QCA, cwblhawyd y gwaith o werthuso treialon Dyfarniadau Estynedig Uwch a derbyniwyd y cyngor ar drefniadau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan y Cynulliad. Achredwyd manylebau ar gyfer 2002 ym mis Hydref 2001.
- Cyhoeddwyd arweiniad i Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol yn ymwneud ag amlinelliadau o gyrsiau ar gyfer tystysgrifau technegol ym mis Gorffennaf 2001. Cydnabuwyd 131 o dystysgrifau technegol. Byddant yn rhan bwysig o'r Fframweithiau Prentisiaeth Fodern newydd.



**Sicrhau safonau**

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ACCAC wedi parhau i wneud gwaith rhesymoli ar y cyd gyda QCA a CCEA. Pwrpas y gwaith hwn yw rhesymoli y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo Fframwaith sy’n fwy cydlynol a safonol. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd 98 o gyrff dyfarnu fel rhai sy’n gymwys i gynnig cymwysterau o fewn y Fframwaith. Achredwyd dros 3000 o gymwysterau. Cafodd 1860 arall naill ai eu dileu neu eu cynnwys mewn cymwysterau eraill.**



# Cyflawniadau'r Awdurdod 2001/2002

NOD 1

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i weithio gyda'r Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol mewn Ieithoedd a mudiadau allweddol eraill i ddatblygu systemau cymwysterau ac asesu sy'n cydnabod gallu 'dwyieithog' yn y gweithle.
- Mae ACCAC wedi parhau i gymryd rhan yn y Bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru a bydd yn chwarae rhan lawn yn yr arolwg nesaf.

**Targed allweddol:**
Sicrhau safonau.

- Cytunwyd ar y rhaglen fonitro ar ôl achredu ar gyfer 2002 gyda'r QCA ar gyfer cymwysterau cyffredinol a chymwysterau lefel mynediad. Cytunwyd ar welliannau i'r broses o lywio gwaith ar y cyd ar ôl achredu gyda QCA a CCEA.
- Cytunwyd ar y rhaglen fonitro ar ôl achredu ar gyfer NVQ gyda QCA.
- Gweithredwyd y rhaglen ar gyfer monitro Sgiliau Allweddol ar ôl achredu.
- Dosbarthwyd *Cod Ymarfer 2002 ar gyfer TGAU, TAG, TAA a GNVQ* ym mis Rhagfyr 2001.
- Anfonodd ACCAC adroddiadau archwilio i CBAC yn ymwneud â TAG Safon UG mewn Cymraeg, mathemateg a hanes, TGAU mewn astudiaethau cyfryngau a Lefel Mynediad (TCA) sgiliau bywyd a dyniaethau, ac adroddiad monitro cod yn cwmpasu 10 pwnc arall.
- Darparwyd saith adroddiad dilynol hefyd i CBAC ar gyfer archwilio TGAU a Safon Uwch/UG 1999 a 2000.
- Mae'r Awdurdod yn y broses o wirio effeithiolrwydd systemau CBAC ar gyfer adolygu prosesau a gweithdrefnau.
- Cwblhawyd adroddiad ar y defnydd o NVQ a Thystysgrif Alwedigaethol (TA) yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Mae trefniadau arbennig y Cyd Gyngor dros Gymwysterau Cyffredinol a'r Awdurdodau Rheoleiddio ar gyfer profion statudol ac arholiadau allanol ar gyfer 2002 yn cael eu halinio ar hyn o bryd. Bydd gwaith yn parhau i resymoli trefniadau arbennig ar Lefel Mynediad.
- Bydd ACCAC yn parhau i weithio gyda'i chwaer awdurdodau rheoleiddio i werthuso'r cynllun 'Mynediad i Sgriptiau'.
- Mae ACCAC wedi prosesu 83 o ymholiadau a chwynion (yn cynnwys rhai yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth) sy'n ymwneud â chymwysterau.
- Cyhoeddwyd data ystadegol gan y cyrff dyfarnu ar y nifer sy'n dilyn cyrsiau cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r wybodaeth hon wedi ffurfio'r sail i adroddiad mewnol a chaiff ei defnyddio ar gyfer gwaith pellach, ar fonitro'r cynnydd mewn ffigurau derbyn, a wneir yn 2002/2003.





**Targed allweddol:**
Darparu cymorth ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

- Cytunwyd ar drefniadau manwl i roi cymorth ariannol ar gyfer cyfieithu manylebau GNVQ/Safon Uwch Galwedigaethol a deunyddiau asesu, TGAU mewn manylebau pynciau galwedigaethol a deunyddiau asesu TAA gyda'r cyrff dyfarnu.

**Targed allweddol:**
Darparu cymorth ar gymeradwyo cymwysterau'n statudol.

- Mae ACCAC wedi rhoi cyngor i'r Cynulliad, o dan Adran 96 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, ar gymeradwyo cymwysterau i'w defnyddio gan ddisgyblion 18 oed ac iau, yn cynnwys rhai o oedran addysg orfodol.

NOD **2**

# Datblygu cwricwlwm cydlynol ac integredig ar gyfer disgyblion 5–19 oed, gyda threfniadau asesu yn 5, 7, 11 a 14 oed sy'n codi safonau cyrhaeddiad ac yn ymestyn cyfleoedd addysgol.

**Targed allweddol:**
Monitro'r gwaith o weithredu fframweithiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac Addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith (AGG) a chynghori'r Cynulliad ar p'un a ddylid gwneud ABCh ac AGG yn statudol.


- Cynhaliodd yr Awdurdod astudiaethau gwerthuso gydag ysgolion a chyrff eraill â diddordeb ar effaith dogfennau fframwaith ABCh ac (AGG). Rhoddwyd cyngor ar statws y fframweithiau hyn ar gyfer y dyfodol i'r Cynulliad ym mis Mai 2002.

**Targed allweddol:**
Rhoi cyngor ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd yng Nghymru.

- Cymeradwyodd y Cynulliad y *Fframwaith Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ar gyfer disgyblion 11-19 oed mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru* i'w weithredu o fis Medi 2002 a lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y Fframwaith ym mis Chwefror 2002.

**Targed allweddol:**
Cyhoeddi rhagor o ddeunyddiau arweiniad i gefnogi gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig.

- Lansiwyd *Cyfleoedd Cyfartal ac Amnrywiaeth yn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru* yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2001 gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.
- Amlygwyd a dosbarthwyd gwybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol, ar enghreifftio safonau ar draws y cyfnodau allweddol ac ar arweiniad Cyfnod Allweddol 3 (CA3) ynglŷn â chodi safonau, mewn cynadleddau yn ystod y flwyddyn.
- Ym mis Ionawr 2002, cytunodd y Cynulliad ar gynlluniau'r Awdurdod i adolygu trefniadau cwricwlwm ac asesu. Bydd gwaith ar hyn yn dechrau yn 2002/2003.
- Roedd y *Cyflwyniad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru* ar gyfer yr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon ar gael ar safwe ACCAC ym mis Ionawr 2002.



**Codi ymwybyddiaeth, gwella cyrhaeddiad**

**Cynhaliwyd 15 cynhadledd ar hyd a lled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Deunyddiau Asesu Dewisol (DADau). Cynhyrchwyd y DADau i gefnogi asesiad athrawon, fel rhan o'r dysgu a'r addysgu yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Maen nhw wedi eu cynllunio i helpu athrawon i adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion, i hybu cysondeb o ran asesiad athrawon ac i annog hunanasesiad.**



# Cyflawniadau'r Awdurdod 2001/2002

NOD 2

- Lansiwyd *Ffocws ar Gyrhaeddiad,* arweiniad ar gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol yn y broses o bennu targedau ar gyfer yr ysgol gyfan, mewn cynhadledd a drefnwyd gan ACCAC ar gyfer cydlynwyr AAA ysgolion cynradd ym mis Tachwedd ac yna fe'i dosbarthwyd i ysgolion.
- Cynrychiolwyd yr Awdurdod ar y grŵp golygyddol a gafodd ei gynnull gan y Cynulliad i weithio gydag Education Extra i gynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol.
- Cynrychiolir yr Awdurdod ar y Panel Ymgynghorol ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Nod y panel yw hybu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a gwneud argymhellion ymarferol ar gyfer Cymru. Mae'r Awdurdod wedi llunio gwybodaeth ddrafft ar ffurf taflen i'w chymeradwyo gan y panel.

**Targed allweddol:**
Cwblhau'r rhaglen o gyhoeddi Deunyddiau Asesu Dewisol i gefnogi'r gwaith o wella ansawdd asesu athrawon.

- Dosbarthwyd Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer gwyddoniaeth Cyfnodau Allweddol 2 a 3, daearyddiaeth, cerddoriaeth a chelf Cyfnod Allweddol 2 i ysgolion. Cynhaliwyd 15 o gynadleddau dosbarthu drwy Gymru yn ystod tymhorau'r hydref 2001/gwanwyn 2002 er mwyn sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r deunyddiau. Cafwyd croeso mawr i'r rhain. Caiff gweddill y Deunyddiau Asesu Dewisol eu dosbarthu yn ystod tymhorau'r haf a'r hydref 2002/2003.
- Yn ogystal, cyhoeddwyd cyfres o ddeunydd asesu dewisol wedi'i dargedu at Lefel 1 a 2 yng Nghyfnod Allweddol 3.





**Targed allweddol:**
**Cynnal trefniadau asesu dibynadwy a hylaw i ddisgyblion 5, 7, 11 a 14 oed.**

- Ymestynnwyd cymeradwyaeth o'r cynlluniau asesu sylfaen a achredwyd i gwmpasu blynyddoedd ysgol 2002/03 a 2003/04.
- Parhaodd yr Awdurdod i sicrhau bod y trefniadau asesu a chyflwyno adroddiadau statudol yng Nghymru ar gyfer disgyblion 7, 11 a 14 oed yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Asesu Statudol gan ganiatáu i gynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol gael gwybodaeth am y trefniadau asesu o lygad y ffynnon. Roedd hyn hefyd yn fodd i'r Awdurdod dderbyn adborth pwysig.
- Cyhoeddwyd adroddiadau *Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu* Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3, gan roi arweiniad gwerthfawr i athrawon ar sut y perfformiodd disgyblion ym mhrofion 2001. Yn 2001, am y tro cyntaf, anfonwyd crynodeb o brif ganfyddiadau'r adroddiadau i ysgolion ar ddechrau tymor yr hydref cyn y brif ddogfen. Rhoddwyd y crynodebau hyn ar y safwe hefyd.
- Cynhyrchwyd fersiynau braille, print mawr wedi'i addasu a fersiynau wedi'u chwyddo o'r profion ar gyfer disgyblion â nam ar eu golwg.

**Targed allweddol:**
**Cwblhau'r rhaglen o gyhoeddi deunyddiau i gynorthwyo ysgolion i wneud defnydd mwy effeithiol o wybodaeth asesu, gan gynnwys adroddiadau ar dasgau a phrofion statudol blwyddyn 2001.**

- Roedd y deunydd arweiniad i gynorthwyo athrawon a gyhoeddwyd yn 2001/2002 yn cynnwys deunydd ychwanegol yn y gyfres *Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu* (MEOUAI). Cynhyrchwyd fideo a llyfryn ar gyfer ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn.
- Dychwelwyd sgriptiau profion Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a gafodd eu marcio'n allanol i ysgolion yn llwyddiannus.
- Cwblhawyd yr ymarfer Casglu Data Cenedlaethol hefyd yn llwyddiannus ar gyfer 2001.
- Dosbarthwyd profion Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 ar gyfer 2001 i ysgolion ym mis Ebrill a chynlluniau marcio cysylltiedig ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 ym mis Mai.
- Dosbarthwyd deunyddiau prawf 2002 ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 i ysgolion ym mis Ebrill 2002.

# NOD 2

- Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog na fyddai profion a thasgau Cyfnod Allweddol 1 yn statudol yn 2002, anfonwyd y deunyddiau a ddatblygwyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 i ysgolion ym mis Chwefror fel deunyddiau profion a thasgau dewisol i'w defnyddio gan ysgolion, pe dymunent, i gynorthwyo eu hasesiad athrawon.
- Dosbarthwyd llyfrynnau *Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol ar gyfer 2002* Cyfnodau Allweddol 2 a 3 i ysgolion ym mis Tachwedd 2001. Anfonwyd fersiwn diwygiedig ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 i ysgolion ym mis Chwefror.
- Mae'r gwaith o ddatblygu deunydd profion a thasgau statudol ar gyfer 2003 wedi ei ddechrau. Gweinyddwyd y rhag-brofion cyntaf fel y trefnwyd.

**Targed allweddol:**
**Parhau i adolygu gwaith y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau).**

- Cyhoeddwyd yr *Arweiniad diwygiedig ar yr Adolygiad o Feysydd Llafur a Gytunwyd yn Lleol* ym mis Gorffennaf 2001.
- Cyhoeddwyd adroddiad adolygu CYSAG ym mis Gorffennaf 2001. Roedd hwn yn cwmpasu'r cyfnod o fis Medi 1998 i fis Awst 2000.
- Mae'r gwaith ar enghreifftio safonau mewn Addysg Grefyddol wedi ei ddechrau.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Cyhoeddir cynigion yn ymwneud ag arweiniad ar yr arfer orau wrth addysgu plant dawnus yn 2003/2004.
- Cynrychiolwyd ACCAC ar y Grŵp Ymgynghorol a sefydlwyd gan y Cynulliad i Leihau'r Baich Biwrocrataidd ar Ysgolion yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2001. Nododd nifer o gamau gweithredu y mae ACCAC yn gorff arweiniol ar eu cyfer. Ym mis Ionawr 2002, cyflwynodd ACCAC ymateb i'r Cynulliad ar y materion hyn.
- Cynrychiolwyd ACCAC ar y grŵp ymgynghorol ar gyfer cynllunio'r gwaith o weithredu cronfa ddata Lefel Disgyblion ar gyfer Cymru.
- Gweithredodd ACCAC mewn partneriaeth â QCA, CCEA a Scottish Qualifications Authority (SQA), yr awdurdodau asesu ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, i ymgymryd yn llwyddiannus â blwyddyn gyntaf rhaglen tair blynedd i ddatblygu, treialu a chyflwyno cynllun peilot ar ffyrdd o ddefnyddio technolegau newydd i wella prosesau marcio allanol a Chasglu Data Cenedlaethol. Darparwyd arian ar gyfer y rhaglen hon gan Drysorlys EM o dan y gyllideb Buddsoddi i Gynilo.



NOD 3

# Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o safon uchel i gefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig.

**Targed allweddol:**
Cyhoeddi 88 y cant o'r teitlau a amserlennwyd i'w cyhoeddi yn 2001/2002.

- Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd 24 o brojectau, yn cynnwys pum project a ohiriwyd o flynyddoedd blaenorol. Bu swyddogion pwnc yr Awdurdod, gyda chymorth athrawon sy'n gweithio, yn monitro ansawdd y deunyddiau a gynhyrchwyd. Cafodd cyfanswm o 216 o deitlau eu hamserlennu i'w cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddwyd 183 (85 y cant) ohonynt.

- Yn ystod 2001/2002, cyhoeddwyd y deunyddiau canlynol i gefnogi astudio'r pynciau craidd:

### Cymraeg

- Cefnogi datblygu sgiliau llythrennedd mewn Cymraeg, 16 llyfr ffeithiol Cyfnod Allweddol 1 y *Longman Book Project*, ynghyd â 47 o deitlau yng Nghyfnod Allweddol 2 a addaswyd o'r *Oxford Reading Tree* gan Drakes.

- Cyhoeddwyd *Haws Dweud* i gefnogi gwella sgiliau iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 gan Y Ganolfan Astudiaethau Addysg.

- Comisiynwyd y gwaith o gyfieithu *Bright Sparks* ac *Extreme Sports/To the Limit* ar y cyd gyda CBAC ac fe'u hanelwyd yn benodol at annog bechgyn i ddarllen.

- Cyhoeddwyd siartiau wal iaith i ddangos arddulliau gwahanol o ysgrifennu yng Nghyfnod Allweddol 2.

### Mathemateg

- Cyfieithwyd 12 teitl o'r cynllun mathemateg poblogaidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, *Numeracy Focus,* gan y cyhoeddwyr Rigby Heinemann. Bu galw mawr am y teitlau hyn eleni.

- Dosbarthwyd posteri ar *pi,* a gynhyrchwyd yn wreiddiol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, fel cyfres.


- Yn dilyn ymateb ardderchog i ddeunyddiau mathemateg Blwyddyn 7, cyfieithwyd deunyddiau Blwyddyn 8 y cynllun *Key maths* hefyd gan Y Ganolfan Astudiaethau Addysg.

### Gwyddoniaeth

- Cyfieithwyd testunau adolygu yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.

- Cyfieithwyd deunyddiau AAA ar gyfer y rhifyn Cymraeg presennol o *Gwefr Gwyddoniaeth.*

- Cyhoeddwyd *Gwyddoniaeth yng Nghymru*, deunydd gwreiddiol, gan Y Ganolfan Astudiaethau Addysg yn Gymraeg ac yn Saesneg, i gefnogi'r Cwricwlwm Cymreig.



**Mwy o ddeunyddiau cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion**

**Bwriad yr Awdurdod yw cefnogi cynnydd o ran safonau cyrhaeddiad yn y Gymraeg, drwy wella ac ymestyn yr ystod o gyfleoedd addysgol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn gwneud hynny, mae'r Awdurdod wedi ychwanegu 183 o deitlau at ei restr o gyhoeddiadau a gomisiynwyd ar gyfer y flwyddyn hon yn unig. Anelir y deunyddiau at ddiwallu anghenion disgyblion o bob oedran a gallu, gan gynnwys anghenion addysgol arbennig.**



# NOD 3

- Cynhyrchwyd y deunyddiau canlynol i gefnogi astudio pynciau sylfaen:

### Astudiaethau Busnes

- Cyfieithwyd testun TGAU, wedi'i anelu at ddiwallu anghenion disgyblion cyfrwng Cymraeg.

### Dylunio a Thechnoleg

- Cyfieithwyd testunau lliw llawn ar gyfer bwyd a thecstilau. Dyma'r tro cyntaf i'r Awdurdod gomisiynu project yn y maes hwn.
- Cyfieithwyd *Nuffield Technology* yng Nghyfnod Allweddol 4.

### Daearyddiaeth

- Cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Rhydychen ddau atlas yn Gymraeg a Saesneg i gefnogi Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen yn y ddarpariaeth o ddeunyddiau o ansawdd ar gyfer addysgu daearyddiaeth yng Nghymru.
- Cyhoeddwyd tri llyfr o ansawdd da i wella sgiliau daearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 1 gan Gomer ar fformat bach a mawr.
- Cylchgrawn Daearyddiaeth TGAU.

### Hanes

- Ysgrifennwyd *Cymru mewn Oes o Newidiadau 1815-1918* yn arbennig i ddiwallu anghenion manylebau newydd Safon UG a Safon Uwch.

### Cerddoriaeth

- Mae'n bosibl y daw addysgu cerddoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3 yn fwy diddorol yn dilyn cyhoeddi trefniant cerddorol o ganeuon poblogaidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3/4. Gobeithio y bydd cynnwys ffeil midi electronig yn annog y defnydd o TGCh.
- Cyhoeddwyd llyfrau stori ar fformat bach a mawr, ynghyd â CD a llyfr caneuon i gefnogi'r cwricwlwm cerddoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 1.

### Addysg Gorfforol

- Cyfieithwyd dau destun TGAU Saesneg poblogaidd i ddiwallu anghenion disgyblion cyfrwng Cymraeg.


### Addysg Grefyddol

- Cyhoeddwyd llyfrau stori addysg grefyddol gwreiddiol, ar fformat bach a mawr, yn Gymraeg a Saesneg, gan Y Ganolfan Astudiaethau Addysg.

### AAA

- Mae nifer o'r projectau a restrir uchod yn cynnwys deunyddiau ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Yn ogystal, comisiynodd yr Awdurdod:
  - cyfres o sgriptiau drama ar faterion cymdeithasol cyfredol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3/4, a gynhyrchwyd gan wasg UWIC.





Cymraeg Ail Iaith

- Cyhoeddodd Y Lolfa gasgliad o farddoniaeth â darluniau wedi'i dargedu at ddysgwyr Cyfnodau Allweddol 3 a 4.
- Cyhoeddodd Y Ganolfan Astudiaethau Addysg *Sglein ar y Sgiliau*, canllaw i wella sgiliau ysgrifennu ar gyfer disgyblion Safon Uwch.
- Cyhoeddwyd *Troeon*, pecyn aml-gyfrwng o ddeunyddiau dysgu ar gyfer Cyfnod Allweddol 1, gan ACEN. Mae'n cynnwys llyfrau darllen ffuglen a ffeithiol, llyfrau fformat mawr, tapiau a gemau.

**Targed allweddol:**
**Cynnal gwerthiannau gros deunyddiau a gomisiynwyd ar lefel o dros £500,000 y flwyddyn.**

Mae ffigurau gwerthiannau yn cael eu casglu bob chwe mis ar gyfer projectau lle mae'r holl ddeunyddiau wedi cael eu cyhoeddi. Mae cyfanswm y gwerthiannau gros wedi cynyddu o £627,751 yn 1999/2000 i £764,644 yn 2000/2001. Y gwerthiannau ar gyfer chwe mis cyntaf 2001/2002 oedd £264.044.

Ymysg y mentrau penodol a gyflawnwyd o fewn y nod hwn mae:

Sicrhau cydbwysedd rhwng deunyddiau printiedig a deunyddiau a gaiff eu cyhoeddi ar ffurfiau eraill a cheisio darparu mwy o ddeunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog ar y Rhyngrwyd.

- Derbyniodd y safwe porthol a gomisiynwyd, www.drws.co.uk 100,000 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn. Safwe a gaiff ei gynnal a'i gadw gan Francis Balsam Associates yw hwn, sy'n creu cysylltiadau â phob safwe Cymraeg neu ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) o ddiddordeb addysgol. Mae hefyd yn cynnwys cysylltiadau â safwe pob ysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn anffodus, rhaid oedd rhoi'r gorau i gynlluniau uchelgeisiol i gydweithio â HTV ac AngliaMultimedia i ddarparu deunyddiau ysgol gynradd Cymraeg a dwyieithog helaeth pan roddodd AngliaCampus y gorau i fasnachu, gan ddangos yn glir y problemau o weithio yn y maes hwn sy'n newid mor gyflym.

Mentrau i wella gwerthiannau deunyddiau Saesneg y Cwricwlwm Cymreig.

- Dosbarthwyd cylchlythyr gwybodaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd ynghylch deunyddiau cyfrwng Saesneg ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig.

NOD 4

# Gwella sylfaen gwybodaeth yr Awdurdod gyda gwaith ymchwil wedi'i dargedu a darparu gwybodaeth amserol ynghylch datblygiadau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Targed allweddol:**
**Sefydlu perthynas waith effeithiol gyda Chyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru (ELWa).**

- Datblygir perthynas waith effeithiol yn barhaus, a chydweithir ar nifer o brojectau, yn cynnwys Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru.

**Targed allweddol:**
**Sicrhau mynediad i ystadegau sy'n cwmpasu cylch gorchwyl cyfan ACCAC, yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol.**


- Cyhoeddwyd y ddogfen *Llwyddiant mewn Arholiadau yng Nghymru 2000* ym mis Mehefin 2001.

**Targed allweddol:**
**Cyhoeddi a lledaenu gwybodaeth amserol ynglŷn â gwaith yr Awdurdod.**

- Roedd gan yr Awdurdod arddangosfa yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych ac yn Arddangosfa a Chynhadledd Addysg Genedlaethol Cymru.
- Cafodd copïau o rifyn Mehefin, Tachwedd a Mawrth o *Cylchlythyr* eu cyhoeddi mewn da bryd. Argraffir 21,000 o gopïau o bob rhifyn.
- Cyfarfu'r Fforwm Cymdeithas Athrawon yn rheolaidd. Ymgynghorir â'r Gymdeithas hefyd fel mater o drefn yn ystod ymarferion ymgynghori.
- Cyfarfu'r Fforwm Cyrff Dyfarnu, y Fforwm Addysg Uwch a Fforwm Addysg Alwedigaethol Cymru Gyfan yn rheolaidd.

Gwybodaeth ychwanegol:
**Gweithredu'r Mynegai Gwella Ysgolion yn barhaus ar gyfer ysgolion â'r gwelliant mwyaf o ran canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4.**

- Mae dros dri-chwarter yr ysgolion a gynhelir wedi cymryd rhan yn y Mynegai Gwella Ysgolion ar gyfer 2001, a chofrestrodd 173 o ysgolion, y nifer uchaf erioed. Dyma seithfed flwyddyn y cynllun a drefnir gan ACCAC ac a gefnogir gan Fanc HSBC. Eleni, adolygwyd y sail ar gyfer cyfrifo'r mynegai i gwmpasu canlyniadau'r chwe mlynedd ddiwethaf yn hytrach na phedair blynedd, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Mantais hyn yw nad oes unrhyw flynyddoedd yn gorgyffwrdd ac mae'n rhoi mwy o gydnabyddiaeth o welliant gwirioneddol dros amser.
- Derbyniodd yr enillydd rhanbarthol ar gyfer De Cymru, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Caerdydd, y Wobr Genedlaethol ar gyfer yr ysgol â'r gwelliant mwyaf o ran canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 yn 2001. Derbyniodd Ysgol Gyfun Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, yr enillydd rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru, y Wobr Genedlaethol ar gyfer yr ysgol â'r gwelliant gorau ond un.
- Aeth y tair gwobr arall i: Ysgol Uwchradd St. Joseph, Wrecsam; Ysgol Uwchradd Gwernyfed, Powys; Ysgol Uwchradd Cwmcarn, Caerffili.



**Dathlu llwyddiant**

**Mae *Llwyddiant mewn Arholiadau yng Nghymru 2001* yn rhoi gorolwg o'r tueddiadau o ran cymwysterau dros y degawd diwethaf. Un ffactor a amlygir yn yr adroddiad eleni yw'r gydberthynas amlwg rhwng perfformiad cyffredinol y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a'r graddau TGAU dilynol. Gall y wybodaeth hon helpu ysgolion i dargedu'r rhai sy'n tangyflawni yng Nghyfnod Allweddol 4. Ar raddfa ehangach, bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol wrth wneud ymchwil pellach wedi'i seilio ar dystiolaeth.**



NOD 4

## Cyhoeddiadau

(dwyieithog oni nodir yn wahanol)

**Rhestrir isod y cyhoeddiadau a ddosbarthwyd gan yr Awdurdod yn ystod 2000/2001:**

### Deunydd corfforaethol

Cynllun Corfforaethol 2001/02 – 2003/04

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ACCAC ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001[1]

Cylchlythyr 11: Mehefin 2001[1]

Cylchlythyr 12: Tachwedd 2001[1]

Cylchlythyr 13: Mawrth 2002[1]

### Deunyddiau ar gymwysterau

Cod Ymarfer TGAU, TAG a GNVQ 2001/02

Y Cymwysterau Safon Uwch Newydd (Cwricwlwm 2000) – Gwybodaeth i fyfyrwyr a rhieni[2]

Mathemateg Uwch Gyfrannol – Sesiwn Arholi Ychwanegol yn yr Hydref

Adolygiad o Gwricwlwm 2000 Ôl-16 (gwybodaeth ac arweiniad yn seiliedig ar gynadleddau lledaenu ACCAC) – Hydref 2001[2]

Adolygiad o Gwricwlwm 2000: TAG Uwch ac Uwch Gyfrannol: Atebion i'ch cwestiynau[2]

Ymholiadau am Arholiadau ac Apeliadau[1]

### Cwricwlwm Cenedlaethol

Cyfleoedd Cyfartal ac Amrywiaeth yn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru

Fframwaith Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd

Yr Arolwg o Feysydd Llafur Addysg Grefyddol

Arolwg o Adroddiadau CYSAGau 1998-1999 a 1999-2000

### Deunyddiau asesu

Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2002 ar gyfer Cyfnod Allweddol 1

Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2002 ar gyfer Cyfnod Allweddol 2

Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2002 ar gyfer Cyfnod Allweddol 3

Ffocws ar Gyrhaeddiad – Pennu targedau ar gyfer AAA

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer AAA

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cerddoriaeth Cyfnod Allweddol 2

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Celf Cyfnod Allweddol 2


Fideo a llyfryn MEUOAI ar gyfer ysgolion cynradd

Cyfnod Allweddol 1 Tasgau Saesneg 2002

Cyfnod Allweddol 1 Tasgau Cymraeg 2002

Cyfnod Allweddol 1 Tasgau mathemateg 2002





### Deunyddiau Asesu (parhad)

Cyfnod Allweddol 2 Tasgau Saesneg 2002

Cyfnod Allweddol 2 Tasgau Cymraeg 2002

Cyfnod Allweddol 3 Tasgau Cymraeg 2002

Cyfnod Allweddol 1 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – taflen

Cyfnod Allweddol 2 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – taflen

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Cymraeg (taflen)

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Saesneg (taflen)

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Gwyddoniaeth (taflen)

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Mathemateg (taflen)

Cyfnod Allweddol 1 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu

Cyfnod Allweddol 2 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Cymraeg

Cyfnod Allweddol 2 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Saesneg

Cyfnod Allweddol 2 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 2 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Mathemateg

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Cymraeg

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Saesneg

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 3 Y Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Mathemateg

### Deunyddiau prawf

Deunyddiau Prawf Cyfnod Allweddol 1 (*dosbarthwyd fel Deunyddiau Asesu Dewisol)*

Profion 2001 yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 ar gyfer Cymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth, mathemateg

Profion Sgiliau Allweddol (Ionawr 2002)

Profion Sgiliau Allweddol (Mai 2001)

### Ymchwil a deunydd arall

Gofyn Cwestiynau – Cael Atebion: Llwyddiant mewn arholiadau yng Nghymru, Ystadegau ar Gymwysterau: TAG, TGAU, GNVQ, TCA 2000

Ffeil Cynnydd (ailargraffiad)

Cylchlythyr Ffeil Cynnydd

Taflenni Ffiniau Lefelau

Astudiaeth hafalu mathemateg Cyfnod Allweddol 3

Adroddiadau ar Adolygiadau o Safonau Bob Pum Mlynedd[2]

[1] Hefyd ar gael ar safwe ACCAC

[2] Dim ond ar gael ar safwe ACCAC

# NOD 5 Sicrhau sefydliad sy'n gynyddol effeithiol ac effeithlon.

**Targed allweddol:**
Cynnal trefniadau cynllunio strategol a chorfforaethol cadarn.

- Cyhoeddwyd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2002/03 i 2004/05 ar safwe ACCAC ym mis Mai 2002.
- Cymeradwywyd y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 gan yr Awdurdod yng Ngorffennaf 2001 a derbyniwyd adroddiad archwiliad diamwys. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i ddosbarthwyd yn Hydref 2001.
- Cymeradwyodd y Cynulliad y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2002/2003 yn Ebrill 2002.

**Targed allweddol:**
Sicrhau gwerth am arian a gweithredu rheolaeth ariannol gadarn.

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i gydymffurfio â gofynion y Memorandwm Ariannol ac arfer dda cyfrifeg.
- Mae perfformiad yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r cod talu prydlon wedi cyrraedd 90.35 y cant ar gyfer y flwyddyn hon.

**Targed allweddol:**
Datblygu a chynnal arferion rheoli personél priodol.

- Cymeradwywyd polisi Cyfle Cyfartal yr Awdurdod ac mae cynllun gweithredu manwl yn cael ei lunio.
- Drwy ymrwymiad i Fuddsoddwyr mewn Pobl, mae'r Awdurdod wedi gweithredu cynllun awgrymiadau gan staff, sydd wedi bod o fudd i bawb.
- Cwblhawyd adolygiad o system cyflogau a graddfeydd swyddi'r Awdurdod ym mis Mawrth 2002 gan ystyried arweiniad y Cynulliad ar gyflog cyfartal.

Gwybodaeth ychwanegol:

- Parhawyd i weithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r gallu i ddefnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol wedi galluogi staff i weithio'n fwy effeithiol. Datblygwyd safwe yr Awdurdod trwy gydol y flwyddyn.

**John V Williams**
Prif Weithredwr
Swyddog Cyfrifeg
4 Gorffennaf 2002

**Cyfle cyfartal**

**Mae'r Awdurdod wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn diweddaru ac yn datblygu ymhellach ei bolisi Cyfle Cyfartal. Y cam nesaf yw creu cynllun gweithredu manwl. Gweithredir hyn yn 2002/03 wrth i'r Awdurdod ddatblygu ymhellach ei effeithiolrwydd fel cyflogwr cyfle cyfartal.**





# Rhagair i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

## Cefndir hanesyddol a statudol

Sefydlwyd yr Awdurdod yn wreiddiol o dan Adran 14 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 fel Cyngor Cwricwlwm Cymru. Darparodd Adran 253 o Ddeddf Addysg 1993 ar gyfer ehangu swyddogaethau'r Cyngor a'i ailenwi'n Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 1994. Cadarnhawyd y darpariaethau statudol sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod yn Adrannau 360 a 361 ac Atodlen 30 o Ddeddf Addysg 1996.

Yn weithredol o 1 Hydref 1997, yn rhinwedd Deddf Addysg 1997, ailgyfansoddwyd yr Awdurdod fel Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (yr Awdurdod), gan ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol dros gymwysterau allanol, galwedigaethol ac academaidd.

Mae'r Awdurdod yn elusen a eithrir o dan Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993.

Ar 1 Gorffennaf 1999, daeth yr Awdurdod yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ariannu'r Awdurdod o'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gofynnir i'r Awdurdod baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda sêl bendith y Trysorlys. Gellir cael copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon drwy gysylltu â'r Awdurdod yn ei swyddfeydd yn Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX.

## Prif weithgareddau

Pwrpas yr Awdurdod yw hyrwyddo addysg a hyfforddiant yng Nghymru gyda'r nod o hybu ansawdd a chydlyniad. Rhoddir mwy o fanylion yn yr Adroddiad Blynyddol.

## Ymchwil a datblygiad

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd yr Awdurdod y gwaith o reoli contract ymchwil, gan ymchwilio i Sgiliau Allweddol a Sylfaenol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 1 i 3.

## Rhagair i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

### Aelodau'r Awdurdod
Mae aelodaeth yr Awdurdod yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd, a hyd at 13 aelod arall, oll wedi eu penodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel arfer am gyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf. Gwasanaethodd yr aelodau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Mr Brian Connolly OBE – Cadeirydd
Mr Owen Rees CB – Dirprwy Gadeirydd
Mrs Clare Argyle *(ymddeolodd 30 Medi 2001)*
Mr Alan Boxford OBE
Mrs Eileen Davies
Mrs Sandra Davies OBE
Mrs Katija Dew *(penodwyd 1 Hydref 2001)*
Mrs Jennifer Evans *(penodwyd 1 Hydref 2001)*
Mr Roger Evans
Mr Robert Fowler *(penodwyd 1 Hydref 2001)*
Mr Emlyn Jones OBE
Mr Chris Kipling
Mr Stuart Mathias
Mrs Susan Parsons OBE
Dr Pauline Peregrine
Dr Bryn Roberts
Mrs Elizabeth M Williams *(ymddeolodd 30 Medi 2001)*
Rhoddir manylion pellach yn yr Adroddiad Blynyddol.

Roedd Mr John V Williams, Prif Weithredwr yr Awdurdod, yn aelod o Fwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd tan 31 Mawrth 2002.

Mae cofrestr o fuddiannau'r aelodau wedi ei sefydlu. Mae ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd yr Awdurdod.

Gwasanaethodd y canlynol fel Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn – Mr Alan Boxford (Cadeirydd), Mr Roger Evans, Mr Chris Kipling, Mrs Susan Parsons, Dr Pauline Peregrine a Mrs Jennifer Evans.

### Canlyniadau'r flwyddyn
Diffyg yr Awdurdod am y flwyddyn oedd £210,000 (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 – diffyg o £181,000). Mae'r swm hwn wedi ei drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn. Yr incwm gros a gredydwyd i'r cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn oedd £10,659,000 (2000/2001 – £9,621,000). Er y bu colled ar y cyfrif incwm a gwariant ar gyfer pob un o'r tair blynedd ddiwethaf, nid yw'r Awdurdod yn disgwyl y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol. Bu'r lefel ariannu yn arbennig o dynn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi sicrhau lefel gynyddol o arian sef £11,983,000 ar gyfer 2002/03. Nodir manylion pellach am sefyllfa ariannol yr Awdurdod isod.

Ar 31 Mawrth 2002, roedd rhwymedigaethau net o £328,000 (31 Mawrth 2001 – £147,000) a diffyg ar y cyfrif incwm a gwariant o £713,000 (31 Mawrth 2001 – £503,000). Mae hyn wedi codi o ganlyniad i gynnydd mewn credydwyr i £969,000 (31 Mawrth 2001 – £793,000). Defnyddir arian o gymorth grant i dalu'r credydwyr hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2002/03.

Mae natur gweithrediadau'r Awdurdod yn golygu bod swm sylweddol o waith yn cael ei gwblhau neu'n dwyn ffrwyth ar ddiwedd neu tua diwedd y flwyddyn ariannol – er enghraifft, argraffu profion statudol. Yn ogystal, mae rhywfaint o'r gwaith yn parhau o hyd ar ddiwedd y flwyddyn sy'n golygu bod y taliad yn cael ei wneud gan yr Awdurdod rai misoedd ar ôl diwedd y flwyddyn – er enghraifft, darparu cymorth ariannol

ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Er bod nifer fawr o daliadau yn cael eu gwneud yn union cyn diwedd y flwyddyn (dros £2,500,000 ym mis Mawrth y ddwy flynedd ddiwethaf), mae ffigur y credydwyr ar ddiwedd unrhyw flwyddyn bob amser yn uchel am y rhesymau a nodwyd uchod. Defnyddir arian o gymorth grant i dalu'r credydwyr hyn yn y flwyddyn ariannol ddilynol, ac felly mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes byw. Nid yw'n bosibl rhagweld derbyn yr arian hwn ymlaen llaw. Felly gan fod y ffigurau ar gyfer dyledwyr a stoc yn weddol isel, canlyniad hyn yw diffyg ar y cyfrif incwm a gwariant. Rhagwelir y bydd gweddill cronnus ar y cyfrif incwm a gwariant yn ddiffyg o hyd oherwydd y gwahaniaeth hwn yn yr amseriad. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnig am ac wedi sicrhau cynnydd yn lefel y cyllid am y blynyddoedd i ddod. Mae cyllid yr Awdurdod ar gyfer 2002/3 wedi ei gynyddu i £11,983,000. Mae'r Awdurdod yn adolygu'r sefyllfa yn fanwl er mwyn sicrhau nad yw'n ymrwymo'n ormodol i wariant na ellir ei dalu yn amserol.

## Datblygiadau mawr

Yn ystod y flwyddyn, daeth yr Awdurdod yn gyfrifol am gynhyrchu profion Sgiliau Allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Penodwyd pum aelod ychwanegol o staff at y diben hwn.

Mae'r Awdurdod wedi'i ymrwymo i gytundebau prydlesu ar gyfer rhentu swyddfeydd ychwanegol yn Nhŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd. Llofnodwyd y prydlesau ar 3 Ebrill 2002. Nodir yr ymrwymiadau o dan y prydlesau yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

## Asedau sefydlog

Amlinellir symudiadau mewn asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn yn nodyn 8 i'r cyfrifon.

## Polisi cyflogaeth

Mae'r Awdurdod yn mabwysiadu ymagwedd cyfle cyfartal tuag at recriwtio, datblygu a dyrchafu staff. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am swyddi gan bob person, beth bynnag fo'u rhyw, cefndir ethnig neu anableddau. Hysbysir cyflogeion yn rheolaidd o faterion sy'n effeithio arnynt, drwy gyfrwng dogfennaeth ysgrifenedig, trafodaethau anffurfiol, ymgynghori â'r Undeb Llafur a, lle y bo'n briodol, cyfarfodydd hysbysu.

## Polisi tâl

Mae'r Awdurdod yn llwyr ymrwymedig i i dalu ei filiau'n brydlon, ac mae'n cefnogi Cod Ymarfer Talu'n Well y CBI. Nod yr Awdurdod yw talu biliau yn unol â'r amodau y cytunwyd arnynt mewn contractau neu, os nad oes amodau o'r fath yn bod, o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn y nwyddau a'r gwasanaethau neu ar ôl i anfoneb ddilys gael ei chyflwyno, pa un bynnag yw'r diweddaraf. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefnau i fonitro ei berfformiad o ran talu biliau'n brydlon. Yn ystod y flwyddyn, talodd yr Awdurdod 90.35 y cant o filiau di-ddadl o fewn 30 diwrnod.

## Archwilwyr

Archwilir cyfrifon yr Awdurdod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 17 Atodlen 5 o Ddeddf Addysg 1997.

John V Williams
Prif Weithredwr
Swyddog Cyfrifeg
4 Gorffennaf 2002

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr

O dan baragraff 17 o Atodlen 5 Deddf Addysg 1997, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi datganiad o'r cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail yr hyn a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a gwariant a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- ddilyn Cyfarwyddyd y Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifeg a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifeg addas yn gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon yn rhesymol
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifeg perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni fydd yn anaddas tybio y bydd yr Awdurdod yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifeg yr Awdurdod. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifeg, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano ac am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

# Datganiad o'r system reoli fewnol

Fel Swyddog Cyfrifeg, mae gennyf gyfrifoldeb dros sicrhau bod system gadarn o reoli sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r Awdurdod yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd arnaf i yn 'Cyfrifeg y Llywodraeth'.

Bwriedir i'r system reoli fewnol reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Seilir y system reoli fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi'r prif risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod; gwerthuso natur a maint y risgiau hynny; a'u rheoli'n effeithiol ac yn ddarbodus. Ar y cyfan, mae'r broses hon wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac mae'n cyd-fynd ag arweiniad y Trysorlys. Drwy adeiladu ar y mentrau hyn, bwriedir gweithredu gwelliannau pellach erbyn 31 Mawrth 2003.

Fel Swyddog Cyfrifeg, mae gennyf gyfrifoldeb hefyd am adolygu effeithiolrwydd y system reoli fewnol. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu'r prosesau canlynol:

- Adolygiadau rheolaidd gan y Cadeirydd ac aelodau'r Awdurdod o berfformiad chwarterol a blynyddol, yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae Tîm yr Uwch Reolwyr, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r pedwar Prif Weithredydd Cynorthwyol, yn cyfarfod bob mis i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol yr Awdurdod.
- Adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar y camau y maent yn eu cymryd i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb nhw gan gynnwys adroddiadau cynnydd ar brojectau allweddol.
- Gweithdy, wedi ei arwain gan archwilwyr mewnol, i nodi a chofnodi'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol.
- Sefydlu cofrestr risg ar gyfer y sefydliad cyfan.
- Adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwilio mewnol i safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwiliad Mewnol y Llywodraeth sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol yr Awdurdod ynghyd ag argymhellion i wella.

Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reoli fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol o fewn yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, a'm gwybodaeth i fy hun.

John V Williams
Prif Weithredwr
Swyddog Cyfrifeg
4 Gorffennaf 2002

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 35 i 46 yn unol â Deddf Addysg 1997. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig a'r polisïau cyfrifeg a nodir ar dudalennau 38 i 39.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 32 mae'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Addysg 1997 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi yn unol â Deddf Addysg 1997 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys, ac a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyr perthnasol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Awdurdod wedi cadw cofnodion cyfrifeg cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyriaf a yw'n gyson ai peidio â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalen 33 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Awdurdod ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar y system rheolaeth ariannol fewnol'. Adroddaf os nad yw'n ateb y gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r dyfarniadau a wneir gan yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifeg yn briodol i amgylchiadau'r Awdurdod, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynheliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un a fyddent wedi'u hachosi drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob achos perthnasol, wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli. Wrth ffurfiio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru ar 31 Mawrth 2002 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi'u paratoi yn gywir yn unol â Deddf Addysg 1997 a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

- ymhob agwedd faterol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
9 Gorffennaf 2002

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

# Cyfrif incwn a gwariant
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

| | Nodiadau | 2001/02 £'000 | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm gros** | | | |
| Cymorth grant | 2 | **10,357** | 9,315 |
| Arian cytundebau | 3 | **87** | 109 |
| Rhyddhau o gronfa grantiau wrth gefn y Llywodraeth | 13 | **109** | 126 |
| Incwm gweithredol arall | 4 | **106** | 71 |
| | | **10,659** | 9,621 |
| **Gwariant** | | | |
| Gwariant ar raglenni | 5 | **7,661** | 6,909 |
| Costau staff | 6 | **2,523** | 2,248 |
| Gwariant ar weinyddu | 7 | **576** | 519 |
| Dibrisiant | 8 | **92** | 126 |
| Cost dybiannol credyd cyfalaf | | **(20)** | 3 |
| | | **10,832** | 9,805 |
| **Diffyg ar weithgareddau gweithredu** | 17a | **(173)** | (184) |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | | **(17)** | – |
| Llog i'w dderbyn | | **13** | 12 |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | | **(20)** | 3 |
| **Diffyg am y flwyddyn ariannol** | | **(197)** | (169) |
| **Neilltuadau** | | | |
| Symiau i'w hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 9 | **(13)** | (12) |
| **Diffyg ar weithgareddau cymorth grant am y flwyddyn ariannol** | | **(210)** | (181) |
| **Datganiad o ddiffyg a gadwyd** | | | |
| Diffyg a gadwyd wedi ei ddwyn ymlaen | | **(503)** | (322) |
| Diffyg am y flwyddyn | | **(210)** | (181) |
| **Diffyg a gadwyd a gariwyd ymlaen** | | **(713)** | (503) |

Mae'r holl ffigurau uchod yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

**Datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Diffyg am y flwyddyn | | **(210)** | (181) |
| Symudiad yng nghronfa grantiau wrth gefn y Llywodraeth | 14 | **29** | (33) |
| Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r flwyddyn | | **(181)** | (214) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 46 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen
ar 31 Mawrth 2002

| | Nodiadau | **31 Mawrth 2002 £'000** | 31 Mawrth 2001 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau cyffyrddadwy | 8 | **302** | 356 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stociau | 10 | **43** | 43 |
| Dyledwyr | 11 | **103** | 104 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 17b | **193** | 143 |
| | | **339** | 290 |
| **Credydwyr** | | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | **(969)** | (793) |
| **Rhwymedigaethau cyfredol net** | | **(630)** | (503) |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **(328)** | (147) |
| **Ariannwyd gan:** | | | |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfeydd grantiau wrth gefn y Llywodraeth | 13 | **385** | 356 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | **(713)** | (503) |
| **Cyfanswm arian y Llywodraeth** | 14 | **(328)** | (147) |

John V Williams
Prif Weithredwr
Swyddog Cyfrifeg
4 Gorffennaf 2002

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 46 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian

ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

| | Nodiadau | **2001/02 £'000** | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|---|
| (All-lif)/mewnlif arian parod net o'r gweithgareddau gweithredu | 17a | **(23)** | 96 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethau cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **16** | 9 |
| **Neilltuadau** | | | |
| Symiau a dalwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | **(16)** | (10) |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog cyffyrddadwy | | **(65)** | (82) |
| **Ariannu** | | | |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | 17c | **138** | 93 |
| **Cynnydd mewn arian parod** | 17b | **50** | 106 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 46 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

## 1. Polisïau cyfrifeg

### 1.1 Confensiwn cyfrifeg
Paratoir y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, maent yn bodloni gofynion cyfrifeg a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r Safonau Cyfrifeg a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg, i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn berthnasol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond nid yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORT)) Elusennau.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes byw. Fel y cyfeiriwyd ato yn y 'Rhagair i'r cyfrifon' ar dudalen 30, mae natur gweithrediadau'r Awdurdod yn golygu bod ffigur y credydwyr ar ddiwedd unrhyw flwyddyn bob amser yn uchel. Mae cyllid cymorth grant i dalu'r credydwyr yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol ddilynol, ac felly paratowyd y cyfrifon ar sail busnes byw. Fodd bynnag, nid oes modd rhagweld derbyn y cyllid hwn ymlaen llaw, sy'n golygu bod diffyg felly ar y cyfrif incwm a gwariant cronnus ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y gweddill cronnus ar y cyfrif incwm a gwariant yn aros fel diffyg oherwydd y gwahaniaeth mewn amseru. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi sicrhau cyllid ychwanegol am y blynyddoedd i ddod ac mae'n cadw golwg fanwl ar y sefyllfa.

### 1.2 Asedau sefydlog
Caiff y gwariant ei gyfalafu os disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd barhau am nifer o flynyddoedd ac os yw cost yr eitemau dros £500. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost, llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn yr Awdurdod, nid oes unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net hanesyddol yr asedau a chost gyfredol cael rhai newydd yn eu lle, llai dibrisiant.

### 1.3 Dibrisiant
Dibrisir pob ased sefydlog cyffyrddadwy ar gyfraddau y bwriedir iddynt ddileu'r gost, llai unrhyw amcangyfrif o werth gweddillol pob ased, yn gyfartal dros gyfnod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Gwelliannau yn y brydles – dros weddill cyfnod y brydles
Gwelliannau i'r drwydded – dros gyfnod cychwynnol y drwydded (gweler y nodyn isod)
Gosodiadau a ffitiadau – dros 10 mlynedd, neu weddill cyfnod y brydles, pa gyfnod bynnag yw'r byrraf
Offer swyddfa – dros chwe mlynedd
Offer cyfrifiadurol – dros tair blynedd.

Dibrisir asedau o'r mis pan gânt eu defnyddio am y tro cyntaf.

Mae'r Awdurdod wedi arwyddo cytundeb trwydded i rannu rhan o'r adeilad lle mae'r prif swyddfeydd wedi eu lleoli ond a brydlesir gan denant arall (gweler nodyn 16). Dibrisir gwelliannau i'r rhan sy'n berthnasol i'r cytundeb trwydded fesul rhandaliadau cyfartal dros gyfnod cychwynnol y drwydded, a ddaw i ben ar 24 Mehefin 2005.

### 1.4 Arian cytundebau ac incwm gweithredol arall

Caiff arian cytundebau ac incwm gweithredol arall ei gredydu i incwm y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi.

### 1.5 Grantiau'r Llywodraeth

Caiff y grantiau a dderbynnir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurf cymorth grant at ddibenion gweithredu eu credydu fel incwm yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Caiff y grantiau a dderbynnir ar gyfer gwariant cyfalaf eu credydu i gronfa grantiau werth gefn y Llywodraeth, a throsglwyddir symiau perthnasol i'r cyfrif incwm a gwariant wrth i'r asedau cyfalaf gael eu defnyddio.

### 1.6 Stoc

Mae'r stoc cyhoeddiadau wedi ei brisio ar lefel isaf y gost a'r pris sylweddoladwy net. Ym marn yr Awdurdod, nid oes unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng cost hanesyddol y stoc a chost gyfredol adnewyddu'r stoc.

### 1.7 Costau pensiwn

Cwmpesir cyflogeion presennol a chyn-gyflogeion gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n gynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu ac anghyfrannol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol yn ystod y cyfnod pan fydd yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i'r PCSPS wedi eu cyfrifo ar sail gronnus. Codir rhwymedigaeth am daliadau buddiannau yn y dyfodol ar y PCSPS.

Mae gan Gadeirydd a chyn Gadeirydd yr Awdurdod drefniadau pensiwn sy'n cyfateb i drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir y taliadau pensiwn hyn gan yr Awdurdod allan o'r cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt godi (gweler nodyn 6).

### 1.8 Treth Ar Werth (TAW)

Nodir yr holl wariant a phob ased sefydlog a brynir yn y cyfrifon hyn gan gynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill. O 1 Ebrill 2002, mae'r Awdurdod wedi ei gofrestru ar gyfer TAW.

### 1.9 Cost cyfalaf

Yn unol â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu'r gost gyfalaf a ddefnyddiwyd ei gynnwys yn y costau gweithredu ac fe'i cyfrifir yn ôl chwech y cant o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd.

### 1.10 Ymchwil a datblygu

Telir costau gwariant ar ymchwil a datblygu o'r cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt godi.

## Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

### 2. Cymorth grant

| | 2001/02 £'000 | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Y swm derbyniadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | **10,495** | 9,408 |
| Y swm a ddarparwyd i brynu asedau sefydlog (gweler nodyn isod) | **(138)** | (93) |
| Y cymorth grant a gredydwyd i'r cyfrif incwm a gwariant | **10,357** | 9,315 |

O'r £138,000 a ddarparwyd i brynu asedau sefydlog, gwariwyd £55,000 yn ystod y flwyddyn. Mae'r gweddill sef £83,000 wedi ei gario ymlaen yng nghyfrif Cronfa Grantiau Wrth Gefn y Llywodraeth i gyllido gwariant cyfalaf yn 2002/03.

### 3. Arian cytundebau
Yn ogystal â'r cymorth grant refeniw a chyfalaf a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a nodwyd yn nodyn 2, derbyniodd yr Awdurdod y symiau canlynol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel arian cytundebau:

| | 2001/02 £'000 | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Ffeil Cynnydd (Cofnod Cyrhaeddiad Cenedlaethol gynt) | **87** | 109 |

### 4. Incwm gweithredol arall

| | 2001/02 £'000 | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerthu cyhoeddiadau | **44** | 28 |
| Incwm breindaliadau | **52** | 43 |
| Amrywiol | **10** | – |
| | **106** | 71 |

### 5. Gwariant ar y rhaglenni

| | 2001/02 £'000 | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Nod | | |
| 1 – Datblygu Fframwaith Cymwysterau cydlynol | **1,309** | 1,055 |
| 2 – Datblygu fframwaith cwricwlwm ac asesu cydlynol ac integredig ar gyfer ysgolion | **4,940** | 4,454 |
| 3 – Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth | **1,198** | 1,236 |
| 4 – Ymchwil a gwybodaeth; hysbysrwydd a chyhoeddusrwydd | **214** | 164 |
| | **7,661** | 6,909 |

## 6. Costau staff

| | **2001/02 £'000** | 2000/01 £'000 (Ailddat-ganwyd) |
|---|---|---|
| Cyflogau | **2,087** | 1,854 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **155** | 139 |
| Costau pensiwn eraill | **281** | 255 |
| | **2,523** | 2,248 |

Mae'r ffigurau ar gyfer 2000/01 wedi eu hailddatgan drwy ailddosbarthu costau cyflogau a nawdd cymdeithasol ar gyfer y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd o Wariant ar weinyddu (gweler nodyn 7) i Gostau staff.

Mae'r llythyr Annwyl Swyddog Cyfrifeg (DAO) 3/00 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu, cyn belled ag y bo'n gyson â darpariaeth Deddf Diogelu Data 1998, fanylion am oedran, cyflog (yn ôl bandiau tâl bras) a hawliadau pensiwn aelodau'r Awdurdod a staff uwch sydd â chyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau'r Awdurdod. Mae ffigurau cyflogau yn cynnwys tâl, unrhyw fonws perfformiad (Prif Weithredwr yn unig) ac unrhyw fuddiannau mewn nwyddau. Mae'r manylion i'w gweld isod.

| Enw a theitl | Oedran ar 31 Mawrth 2002 | 2001/02 Cyflog (fel y diffinnir uchod) | 2001/02 Cynnydd mewn pensiwn yn 60 oed | 2001/02 Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2002 |
|---|---|---|---|---|
| **Brian Connolly**<br>Cadeirydd | 62 | 25-30 | * | * |
| **Owen Rees**<br>Dirprwy Gadeirydd | 67 | 5-10 | Amhensiyn-adwy | Amhensiyn-adwy |
| **John V Williams**<br>Prif Weithredwr | 55 | 65-70 | 0-5 | 5-10 |
| **Linda Badham**<br>Prif Weithredydd Cynorthwyol<br>(14-19 Cymwysterau a Chwricwlwm) | Atal datgelu'r wybodaeth | | | |
| **Huw Davies**<br>Prif Weithredydd Cynorthwyol<br>(Gwasanaethau Canolog a Chomisiynu) | Atal datgelu'r wybodaeth | | | |
| **Ann Evans**<br>Prif Weithredydd Cynorthwyol<br>(Cymwysterau Galwedigaethol a Dysgu Gydol Oes) | Atal datgelu'r wybodaeth | | | |
| **David Watcyn Jones**<br>Prif Weithredydd Cynorthwyol<br>(5-14 Cwricwlwm ac Asesu) | Atal datgelu'r wybodaeth | | | |

* Mae gan Mr Connolly yr hawl i gael ei bensiwn ar ôl cwblhau ei gyfnod yn y swydd gyda'r Awdurdod.

## 6. Costau staff (parhad)

### Aelodau'r Awdurdod

Mae'r Cadeirydd o dan gontract i weithio dau ddiwrnod yr wythnos a'r Dirprwy Gadeirydd am ddau ddiwrnod y mis. Ni dderbyniodd Aelodau eraill yr Awdurdod unrhyw daliadau.

Mae gan y Cadeirydd drefniant pensiwn sy'n cyfateb i drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir y taliadau pensiwn gan yr Awdurdod, o ddyddiad ei ymddeoliad, o gyllid cymorth grant a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n bosibl cadarnhau, gydag unrhyw sicrwydd, gyfanswm y pensiwn sy'n daladwy yn y dyfodol. Felly, caiff y taliadau pensiwn eu codi ar y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt gael eu talu.

Penodir pob Aelod am dymor penodedig, tair blynedd fel arfer yn y lle cyntaf. Bydd tymor presennol y Cadeirydd yn y swydd yn dod i ben ar 30 Medi 2004.

### Enillion y Prif Weithredwr

| | **2001/02 £'000** | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Roedd hyn yn cynnwys: | | |
| Cyflog | **63** | 61 |
| Bonws perfformiad | **5** | 4 |
| Buddiannau (tanysgrifiad i gorff proffesiynol) | **–** | 1 |
| | **68** | 66 |
| Cyfraniadau pensiwn – 18.5% | **11** | 11 |
| Cyfanswm | **79** | 77 |

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae gan y Prif Weithredwr yr hawl i gael bonws perfformiad o hyd at 13 y cant o'i gyflog, o dan gynllun a sefydlwyd i fod yn weithredol o 1 Ebrill 1997. Mae elfen o hwn, a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gydgyfnerthedig, a thelir y gweddill fel bonws anghydgyfnerthedig, amhensiynadwy. Mae'r union swm sy'n daladwy yn dibynnu ar gyrraedd targedau penodol, a lefel perfformiad yn gyffredinol.

Mae'r bonws perfformiad o £4,960 ar gyfer 2001/02 yn daladwy mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002.

### Niferoedd staff

| | **2001/02 Nifer** | 2000/01 Nifer |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr bob mis ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd: | | |
| Rheolwyr | **5** | 5 |
| Proffesiynol a Thechnegol | **29** | 27 |
| Staff cynorthwyol | **49** | 47 |
| | **83** | 79 |

### Pensiynau

Mae'r PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr nas ariennir ond ni all yr Awdurdod nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cyflawnwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 1999. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2001/02, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £280,452 yn daladwy i'r PCSPS (2000/01 – £254,906) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 12 i 18.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflogau. Bydd cyfraddau yn aros yr un fath am y ddwy flynedd nesaf, yn amodol ar adbrisio'r bandiau cyflogau. Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu hadolygu bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac adlewyrchant brofiad o'r cynllun yn y gorffennol.

## 7. Gwariant ar weinyddu

| | **2001/02 £'000** | 2000/01 £'000 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch yr Aelodau | **9** | 7 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod | **7** | 5 |
| Costau adeiladau | **145** | 150 |
| Costau teithio a chynhaliaeth y cyflogeion | **115** | 116 |
| Costau swyddfa | **163** | 127 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | **75** | 76 |
| Ffioedd proffesiynol | **42** | 21 |
| Taliadau archwilwyr – gwaith archwilio | **14** | 13 |
| – gwaith sicrwydd ychwanegol | **3** | 3 |
| Arall | **3** | 1 |
| | **576** | 519 |

Ailddatganwyd y ffigurau ar gyfer 2000/01 drwy ailddosbarthu costau cyflogau a nawdd cymdeithasol ar gyfer y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd o Wariant ar weinyddu i Gostau staff (gweler nodyn 6).

## 8. Asedau cyffyrddadwy

| | Gwelliannau prydles a thrwydded £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Offer swyddfa £'000 | Offer cyfrifiadur £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 285 | 63 | 104 | 384 | 836 |
| Ychwanegiadau | – | – | 17 | 38 | 55 |
| Gwarediadau | – | – | (1) | (63) | (64) |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 285 | 63 | 120 | 359 | 827 |
| Dibrisiant: | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 101 | 20 | 82 | 277 | 480 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 24 | 6 | 10 | 52 | 92 |
| Gwarediadau | – | – | (1) | (46) | (47) |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 125 | 26 | 91 | 283 | 525 |
| Gwerth llyfr net: | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | 160 | 37 | 29 | 76 | 302 |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 184 | 43 | 22 | 107 | 356 |

# Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

## 9. Symiau i'w hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ildio llog a dderbyniwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Y swm taladwy oedd:

| | **2001/02 £'000** | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau i'w hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | **13** | 12 |

## 10. Stociau

| | **31 Mawrth 2002 £'000** | 31 Mawrth 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Stoc o gyhoeddiadau gwerthadwy | **43** | 43 |

Mae'r stoc o gyhoeddiadau gwerthadwy wedi ei ddatgan ar ôl tynnu'r ddarpariaeth o £183,000 (2001 - £174,000) a wnaed er mwyn lleihau cost y stoc i gyfateb â'r amcangyfrif o'i werth sylweddoladwy net.

## 11. Dyledwyr a rhagdaliadau

| | **31 Mawrth 2002 £'000** | 31 Mawrth 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Dyledwyr eraill | **48** | 52 |
| Rhagdaliadau | **52** | 50 |
| | **100** | 102 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn: | | |
| Rhagdaliadau | **3** | 2 |
| | **103** | 104 |

## 12. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **31 Mawrth 2002 £'000** | 31 Mawrth 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr a chroniadau eraill | **969** | 793 |

## 13. Cronfa grantiau wrth gefn y Llywodraeth

| | **2001/02 £'000** | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | **356** | 389 |
| Cyfalaf cymorth grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | **138** | 93 |
| Rhyddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn | **(109)** | (126) |
| Ar 31 Mawrth | **385** | 356 |

Mae'r cyfrif hwn yn cynnwys swm o £83,000 a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel cyfraniad tuag at gostau adnewyddu adeiladau swyddfa ychwanegol. Mae'r gweddill ar y cyfrif hwn yn uwch na gwerth llyfr net asedau sefydlog yn ôl swm cyfatebol gan nad oedd y gwariant hwn wedi ei wario ar ddiwedd y flwyddyn.

## 14. Cysoni symudiad o ran arian y Llywodraeth

| | 2001/02 £'000 | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg a gadwyd am y flwyddyn | **(210)** | (181) |
| Symudiad yng nghronfa grantiau wrth gefn y Llywodraeth | **29** | (33) |
| Gostyngiad yn arian y Llywodraeth am y flwyddyn | **(181)** | (214) |
| Arian y Llywodraeth ar 1 Ebrill | **(147)** | 67 |
| Arian y Llywodraeth ar 31 Mawrth | **(328)** | (147) |

## 15. Ymrwymiadau cyfalaf

| | 31 Mawrth 2002 £'000 | 31 Mawrth 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Wedi eu cytundebu | **56** | – |

Yn ogystal, er nad oedd unrhyw ymrwymiad cytundebol ar ddiwedd y flwyddyn, bu trafodaethau i lunio cytundeb ar gyfer gwaith adnewyddu ar y swyddfeydd ychwanegol. Cytunwyd ar y cytundeb ym mis Ebrill. Swm y cytundeb yw tua £178,000. Derbyniwyd arian ychwanegol o £83,000 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel cyfraniad tuag at y costau hyn. Cynhwysir y swm hwn yng Nghyfrif Grantiau Wrth Gefn y Llywodraeth (gweler nodyn 13).

## 16. Prydlesau gweithredu

| | 2001/02 £'000 | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| (a) Symiau a godwyd ar y cyfrif incwm a gwariant am daliadau prydlesau gweithredu | **141** | 167 |

| | 31 Mawrth 2002 Adeiladau (prydlesau a thrwydded) £'000 | 31 Mawrth 2002 Eraill (ceir) £'000 | 31 Mawrth 2001 Adeiladau (prydlesau a thrwydded) £'000 | 31 Mawrth 2001 Eraill (ceir) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (b) Ymrwymiadau blynyddol i brydlesau'n dod i ben: | | | | |
| O fewn blwyddyn | **–** | **–** | – | 4 |
| O fewn dwy i bum mlynedd | **–** | **19** | – | 5 |
| Ar ôl mwy na phum mlynedd | **216** | **–** | 124 | – |
| | **216** | **19** | 124 | 9 |

## Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002

### 17. Nodiadau'r datganiad llif arian

**a) Cysoni'r gwarged gweithredu â'r llif arian parod net o'r gweithgareddau gweithredu:**

| | **2001/02 £'000** | 2000/01 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg ar weithgareddau gweithredu | **(173)** | (184) |
| Tâl dibrisiant | **92** | 126 |
| Cost dybiannol y tâl cyfalaf | **(20)** | 3 |
| Rhyddhau o gronfa wrth gefn y Llywodraeth | **(109)** | (126) |
| Cynnydd mewn stoc | **–** | (24) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr gweithredol | **(3)** | 6 |
| Cynnydd mewn credydwyr gweithredol | **190** | 295 |
| (All-lif)/mewnlif arian parod net o'r gweithgareddau gweithredu | **(23)** | 96 |

**b) Dadansoddiad o'r newidiadau o ran arian parod yn ystod y flwyddyn:**

| | | |
|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill | **143** | 37 |
| Mewnlif arian parod | **50** | 106 |
| Gweddill ar 31 Mawrth | **193** | 143 |

**c) Dadansoddiad o'r newidiadau o ran ariannu yn ystod y flwyddyn:**

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa grantiau wrth gefn y Llywodraeth: | | |
| Ar 1 Ebrill | **356** | 389 |
| Mewnlif arian parod o'r cyllid | **138** | 93 |
| Trosglwyddo i'r cyfrif incwm a gwariant | **(109)** | (126) |
| Ar 31 Mawrth | **385** | 356 |

### 18. Trafodion gyda phartïon cysylltiedig
Ystyrir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd yr Awdurdod i drafodion gyda phartïon eraill ar y cyd â'r Awdurdod Cymwysterau a Chwriwlwm, sy'n derbyn nawdd oddi wrth yr Adran Addysg a Sgiliau.

### 19. Rhwymedigaeth amodol
Gwnaed cais mewn perthynas â therfynu contract yn erbyn yr Awdurdod. Mae sail a swm y cais yn cael ei herio. Mae'r Awdurdod o'r farn bod darpariaeth briodol wedi ei chynnwys o fewn credydwyr yn y cyfrifon hyn am y swm sy'n ddyledus o dan y contract a therfynu'r contract hwnnw. Mae'r Awdurdod yn ceisio dod i gytundeb boddhaol â'r asiantaeth dan sylw. Os nad yw hyn yn bosibl, yna gall yr Awdurdod fod yn agored i dalu swm pellach. Ni ddatgelir y rhwymedigaeth fwyaf posibl yma, fel y caniateir dan Safonau Adroddiad Ariannol Rhif 12, oherwydd gallai datgeliad o'r fath fod yn niweidiol i sefyllfa'r Awdurdod.